# Coedwig Maesyfed
## tras hynafol

**Roedd Coedwig Maesyfed unwaith yn dir hela brenhinol. Y dyddiau hynny, nid coedwig ydoedd yn yr ystyr fodern o fod yn ardal goediog drwchus, ond yn yr ystyr ganoloesol o fod yn 'fforest' sef ardal heb fod yn gaeedig a ddefnyddiwyd i hela ceirw.**

**Mae'r ardal sy'n dal i gael ei galw'n Goedwig Maesyfed yn dir ffermio mynydd gyda gweundir helaeth, dyffrynnoedd culion a serth a bryniau'n codi i'r pwynt uchaf yn Sir Faesyfed, sef Black Mixen ar 650 metr (2150 troedfedd).**

## Coedwig gyda golygfa

Mae mannau agored yn y goedwig yn cynnig golygfeydd gwych o Gadair Idris ac Eryri i'r gogledd-orllewin, y Long Mynd i'r gogledd-ddwyrain, draw i Fryniau Malvern yn y dwyrain a Bannau Brycheiniog i'r de. Yn ôl rhai, os ydych chi'n teithio tua'r dwyrain o bwynt uchaf y goedwig, sef Bryn y Domen Ddu, mai'r pwynt uchaf nesaf y dewch chi ato yw mynyddoedd yr Ural yn Rwsia!

## Mwynhau Coedwig Maesyfed

Mae'r goedwig yn agored i bawb, ar droed, ar gefn ceffyl neu ar feic mynydd. Mae amryw o hawliau tramwy cyhoeddus yn y goedwig a gallwch eu defnyddio i gysylltu ardaloedd gwahanol heb orfod aros ar ffyrdd y goedwig.

**Mae hefyd yn bosib archwilio'r goedwig trwy ddilyn cyfres o deithiau cerdded wedi eu harwyddo o dri maes parcio:**
- **Fishpools**
- **Coed Cwningar**
- **Coed Nash**

Os ydych yn mwynhau'r teithiau hyn beth am roi tro ar Daith Dyffrynnoedd Coedwig Maesyfed? Mae'n daith linol 7 milltir wedi ei harwyddo sy'n cysylltu pentrefi Bleddfa, Llangunllo, Pilleth, Llanddewi-yn-Hwytyn a Chascob ac yn rhoi cyfle i chi ddarganfod mwy am y wlad o'u hamgylch.

**Sylwch fod rhaid i ni gau neu ddargyfeirio llwybrau weithiau er eich diogelwch tra byddwn yn mynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw neu weithrediadau coedwig. Er mwyn eich diogelwch, cofiwch ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a welwch ar y safle, a gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn unrhyw arwyddion dargyfeirio dros dro sydd mewn grym.**

# Fishpools
## Hafan olaf y blaidd

**Mae pentref cyfagos Bleddfa (sy'n golygu 'lle'r blaidd') yn rhoi cliw am hanes diddorol yr ardal. Mae traddodiad bod y bleiddiaid rheibus o goedwig hela hynafol Maesyfed wedi cael eu clirio yn y pen draw trwy eu gyrru i'r dyffryn yma a'u saethu – y bleiddiaid olaf yng Nghymru.**

**Erbyn hyn mae Bleddfa yn le tawelach sy'n ddelfrydol ar gyfer tro yn y goedwig.**

## Sut i gyrraedd Fishpools

Dilynwch yr A488 am bum milltir a hanner o Drefyclo i Fleddfa. Ewch ymlaen am ychydig dros filltir ac mae maes parcio Fishpools ar y chwith.

## Llwybr Fishpools

O'r maes parcio byddwch yn pasio hen dŵr arsylwi Bwrdd Dŵr Birmingham. Cafodd ei ddefnyddio i fapio llinell y bibell ddŵr 73 milltir o hyd, o Gwm Elan i ganolbarth Lloegr, sy'n defnyddio disgyrchiant yn unig i symud y dŵr i Gronfa Frankley, i'r gorllewin o Birmingham.

Ychydig yn bellach ymlaen, arhoswch yn y cyntaf o ddwy olygfan ar y llwybr i fwynhau'r golygfeydd godidog tua'r gorllewin, draw dros y dyffryn tua Llanfihangel Rhydithon a bryniau o amgylch Abaty Cwm Hir a Llandrindod yn y pellter.

Hanner ffordd o amgylch y llwybr mae dolen Turbary, ardal o werth cadwraethol uchel sy'n darparu cynefin gwerthfawr o fewn y goedwig gan ei bod yn cynnwys y math o blanhigion a welwyd cyn pori dwys gan ddefaid a phlannu coed. Mae llwybr byr yn ôl i'r maes parcio o'r pwynt yma, dilynwch yr arwyddion.

## Llwybr Fishpools:

Dilynwch yr arwyddion gwyrdd.
**AMSER:** 2 awr **PELLTER:** 2½ milltir/4km
**GRADDFA:** Cymedrol, 330tr/100m
**UCHAFBWYNTIAU:** Golygfan yng nghwm dros bentref Bleddfa a'r wlad o'i amgylch. Mae cerdded o amgylch y rhostir ar **Ddolen Turbary** yn werth pob munud o amser ychwanegol. Ar un adeg roedd hawl gan y bobl leol i'r 'fawnog' neu'r 'turbary' – torri mawn ar gyfer tanwydd.







© cmoncymru/Antony Evans

# Radnor Forest
## an ancient pedigree

**Radnor Forest was once a royal hunting ground but it wasn't an area covered in trees, which is our understanding of the word 'forest'. To the Norman kings it was an unenclosed piece of land, legally set aside for them to hunt deer.**

**Today the area still called Radnor Forest is a land of hill farming and great moorlands, steep narrow valleys and hills, rising up to the highest point in Radnorshire, Black Mixen at 2150 feet (650 metres).**

## Forest with a view

Open areas within the forest offer stunning views of Cadair Idris and Snowdonia to the north-west, the Long Mynd to the north-east, across to the Malvern Hills to the east and the Brecon Beacons to the south. It has been said that if you travel due east from the highest point of the forest, Black Mixen Hill, the next highest point you come to is the Russian Urals!

## Enjoying Radnor Forest

The forest is open to all, on foot, horseback or mountain bike. Numerous public rights of way run through the forest and can be used to link up different areas without having to stick to the forest roads.

**You can also explore the woods by following a series of waymarked walks from three car parks:**
- **Fishpools**
- **Warren Wood**
- **Nash Wood**

If you enjoy these walks why not try the 7 mile linear Radnor Forest Valleys Walk? This is a waymarked route linking up the villages of Bleddfa, Llangunllo, Pilleth, Whitton and Cascob, and offering you the chance to discover more about the surrounding countryside.

**Please note that sometimes we have to close or divert trails whilst we do maintenance work or fell trees. For your safety please always follow any instructions on site and make sure you follow any temporary diversion signs.**

# Fishpools
## Last refuge of the wolf

**The nearby village of Bleddfa (meaning 'place of the wolf') gives a clue to this area's fascinating history. Tradition has it that the marauding wolves of the ancient hunting forest of Radnor were finally cleared by being driven into the valley here, and shot – the last wolves in Wales.**

**Nowadays Radnor is a more tranquil place and ideal for a woodland stroll.**

## How to find Fishpools

From Knighton take the A488 to Bleddfa (approximately 5½ miles). Continue along this road for just over a mile and you will find Fishpools car park on your left.

## Fishpools Trail

From the car park you will soon pass the old Birmingham Water Board sighting tower. This was used to survey the line of the 73 mile long pipeline, from the Elan Valley to the Midlands, which uses gravity alone to get it to the Frankley Reservoir, west of Birmingham.

A little further on, stop at the first of two viewpoints on the trail and take in the beautiful views to the west, out across the valley towards Llanfihangel Rhydithon and the hills surrounding Abbey Cwm Hir and Llandrindod Wells in the distance.

Halfway round the trail is the Turbary Loop, an area of high conservation value which provides valuable habitat within the forest as it features the kind of vegetation found before intensive sheep grazing and tree planting took place. There is a short cut back to the car park from this point, just follow the signs.



## Fishpools Trail:

Follow the green waymarkers.
**TIME:** 2 hours **DISTANCE:** 2½ miles/4km
**GRADE:** Moderate, 330ft/100m
**HIGHLIGHTS:** Fantastic viewpoint over Bleddfa village and the surrounding countryside. The extra time to walk round the heathland on the **Turbary Loop** is well worth it. Here local people once had the right to 'turbary' - cutting peat for fuel.

# Coedwig Maesyfed
# Radnor Forest

// Cartref i raeadr 'Dŵr Torri Gwddf'
Home of the 'Water-break-its-neck' waterfall


www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Canllaw Teithiau Cerdded
Walks Guide







**Gweler tu mewn am gyfarwyddiadau manwl**
**See inside for detailed directions**
**0300 065 3000**
**www.cyfoethnaturiol.cymru**
**www.naturalresources.wales**

Os hoffech yr wybodaeth hon mewn fformat arall, cysylltwch â ni: Ffôn: 0300 065 3000
Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

If you would like this information in an alternative format, please contact us: Phone: 0300 065 3000
Email: enquiries@naturalresourceswales.co.uk

# Coed Nash

## Coedwig y Ddwy Genedl

**Croeso i'r goedwig hanner yng Nghymru a hanner yn Lloegr, "ar y ffin" o ddifri. Mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y nifer o fryngaerau y gallwch eu gweld o'r olygfan ysblennydd hanner ffordd o amgylch Llwybr Nash. Mae'r llwybr yn le braf i fynd am dro trwy'r flwyddyn, ond cadwch lygad allan am ffyngau lliwgar yn yr hydref.**

### Sut i gyrraedd Coed Nash

Dilynwch y B4355 o Drefyclo i Kington. Wrth y gyffordd 'T' ychydig cyn Llanandras, trowch i'r chwith ar y ffordd osgoi. Gyferbyn â'r ysgol uwchradd, trowch i'r dde a chadwch i'r dde ar bwys yr arwydd parcio Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a dilyn y ffordd i'r maes parcio.

### Llwybr Nash

Dilynwch yr arwyddion coch a dringo'n raddol o'r maes parcio, trwy'r coed, i ffordd y goedwig. Unwaith yr ydych ar y ffordd edrychwch yn ôl ar y golygfeydd gwych dros Lanandras a dros y bryniau i'r Gororau yn y pellter. Dilynwch y ffordd am ychydig cyn naill ai ddilyn y llwybr byrrach lawr y bryn (saethau glas) ac yn ôl i'r maes parcio, neu aros ar y llwybr coch sy'n dechrau dringo'n raddol tua man uchaf y goedwig.

Mwynhewch y golygfeydd lawr i'r de sy'n edrych dros ddyffryn Maesyfed a Henffordd yn y pellter. O'ch blaen mae llethr Burfa, hen gaer o'r Oes Haearn, un o lawer ar y rhan hon o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Allan tua'r de-orllewin gallwch weld Coedwig Maesyfed yn y pellter ynghyd â siâp nodweddiadol bryn Whimble a thref Maesyfed lawr yn y dyffryn.

Ar y rhan hon o'r daith mae cyfle y gwelwch un o'r ceirw sy'n byw yma. Mae Coedwig Nash yn gynefin coediog delfrydol ar gyfer bwncathod a gweilch Marthin. Wrth i chi ddod lawr trwy goetir o ffynidwydd urddasol a Douglas, fe allech weld adar fel pilaod gwyrdd a gylfingroesion sy'n ffynnu ar y conau mawr sy'n tyfu ar y coed yma.

Ailymunwch â ffordd y goedwig a gwelwch Cold Harbour House ar y chwith, un o'r tyddynnod lle'r oedd pobl leol yn byw, ond sydd bellach wedi'i foderneiddio. Yn agos at ddiwedd y daith fe welwch goedlan fawr o goed cyll, cynefin delfrydol ar gyfer y pathew, sydd yn cael ei amddiffyn. Mae'n bellter byr yn ôl i'r maes parcio.

### Llwybr Natur Nash:

Dilynwch yr arwyddion coch.
**AMSER:** 1½ awr
**PELLTER:** 2 filltir/3.3km
**GRADDFA:** Cymedrol, 330tr/100m
**UCHAFBWYNTIAU:** Archwilio'r gymysgedd hyfryd o goetiroedd yng Nghoedwig Nash i gyrraedd golygfa Burfa. Mwynhau'r golygfeydd dros Goedwig Maesyfed a Chefn Hergest. Mae llwybr byr wedi ei ddangos yn las ar y map os ydi amser yn brin.

# Coed Cwningar

## Cartref y Rhaeadr Enwog

**Croeso i'r 'Gwningar', sydd wedi bod yn boblogaidd gyda thwristiaid ers dros 200 mlynedd oherwydd y rhaeadr ysblennydd sydd yno, Dŵr Torri Gwddf. Wedi ei enwi ar ôl y gwningar a fu'n ffynhonnell fwyd yma, mae'r ardal hon wedi gweld newidiadau enfawr ers pan yr oedd Coedwig Maesyfed yn goedwig hela hynafol.**

Yn y dyddiau hynny roedd yn ardal o weundir helaeth, ond yn oes Fictoria penderfynodd y perchnogion ar y pryd, sef Ystâd Harpton Court, greu coedwig 'dlws i'r llygaid' a phlannu llawer o goed. Gallwch weld nifer o'r coed yma, sydd yn anferth erbyn hyn, ar y llwybrau hanesyddol yr ydym wedi eu hailagor ar eich cyfer.

### Sut i gyrraedd Coed Cwningar

Mae maes parcio Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) oddi ar yr A44 rhwng Kington a Llandrindod. Trowch i'r dde filltir ar ôl Maesyfed i mewn i faes parcio cyngor (arwydd frown ar gyfer twristiaid). Unwaith yr ydych oddi ar y ffordd dilynwch yr arwyddion CNC i faes parcio'r Gwningar (lle i 8-10 car).

### Llwybr Rhaeadr

Tro byr yw hwn o'r maes parcio i'r Rhaeadr trwy geunant gydag ochrau serth gyda llawer o fathau o redyn, mwsogl a chennau yn glynu at ei ochrau. Mae'r awyrgylch laith yn creu microhinsawdd. Ar ôl ychydig o ddiwrnodau o law mae'r rhaeadr yn olygfa drawiadol a bydd angen set lawn o ddillad dal dŵr arnoch i gadw'n sych. Mae'n hawdd gweld pam fod pobl oes Fictoria yn meddwl ei fod yn lle arbennig.

### Llwybr Dŵr Torri Gwddf

Taith gron fer i fynnu at olygfan sy'n edrych lawr dros raeadr odidog Dŵr Torri Gwddf. Ewch i fynnu o'r fan honno a dros yr hen bont droed garreg grom, gyda'i golygfeydd lawr i geunant y rhaeadr.

### Llwybr Cwningar

Yn dechrau o'r maes parcio byddwch yn gweld coed llydanddail a chonwydd anferth a blannwyd yn ystod oes Fictoria, yn ogystal â'r pontydd troed carreg crymion addurnedig yn croesi'r Black Brook yng ngwaelod y dyffryn. Er nad yw'n daith hir, nid yw'n addas ar gyfer y gwangalon gan fod ambell i ddringfa serth i ac o'r dyffryn coediog.

### Llwybr Rhaeadr

Dilynwch yr arwyddbyst.
**AMSER:** 20 munud **PELLTER:** ⅓ milltir/0.5 km
**GRADDFA:** Hawdd, gwastad ar y cyfan.
**UCHAFBWYNTIAU:** Tro cyflym i'r rhaeadr ac yn ôl. Edrychwch allan am y rhywogaethau o redyn a mwsogl yn glynu wrth ochrau serth y ceunant.

### Llwybr Dŵr Torri Gwddf

Dilynwch yr arwyddion Glas.
**AMSER:** 45 munud **PELLTER:** ¾ milltir/1km
**GRADDFA:** Cymedrol, 210ft/60m.
**UCHAFBWYNTIAU:** Taith gron trwy'r coed yn arwain at olygfan drawiadol dros y rhaeadr.

### Llwybr Cwningar

Dilynwch yr arwyddion Gwyrdd.
**AMSER:** 1 awr **PELLTER:** 1½ milltir/2.3km
**GRADDFA:** Egnïol, 560ft/170m.
**UCHAFBWYNTIAU:** Cewch weld rhai o goed mwyaf Sir Faesyfed ar y tro egnïol hwn.













# Nash Wood

## The Two Nations Wood

**Welcome to the wood which lies half in Wales and half in England, true 'border country'. This is reflected in the number of hillforts you can see from the spectacular viewpoint halfway round the Nash Trail. This trail makes a lovely walk no matter what time of year, but keep an eye out for colourful fungi in autumn.**

### How to find Nash Wood

From Knighton follow the B4355 to Kington. Approaching Presteigne at the T-junction turn left onto the town by-pass road. Turn right opposite the High School and then bear right at the Natural Resources Wales (NRW) parking sign and follow the road through to the car park.

### Nash Trail

Follow the red waymarkers and climb steadily from the car park through the woodland to the forest road. Once on the forest road take in the wonderful views back over to Presteigne and beyond to the hills of the Welsh Marches in the distance. Follow the road for a short distance and either take the shorter route downhill (blue arrows) back to the car park, or stay on the red trail which starts another steady climb to the high point of the wood.

Enjoy great views south overlooking the Radnor valley and Herefordshire in the distance. In front of you is Burfa bank, an old Iron Age hill fort, one of many along this part of the English/Welsh border. Out to the south-west you will see Radnor Forest in the distance with the distinctive shape of Whimble Hill and the town of New Radnor in the valley below.

On this section of the walk you have every chance of seeing one of the numerous roe deer that live here. Nash Wood is ideal woodland habitat to see buzzards and goshawks. As you descend through woodlands of noble and Douglas fir, you may see birds such as siskins and crossbills which thrive on the large cones which these trees produce.

Rejoin the forest road and see Cold Harbour House on your left, one of the old smallholdings once lived in by local workers but since modernised. Near the end of the walk you will see a large coppice of hazel, ideal habitat for the protected dormouse. From here it is a short walk back to the car park.

### Nash Nature Trail:

Follow the red waymarkers.
**TIME:** 1½ hours
**DISTANCE:** 2 miles/3.3km
**GRADE:** Moderate, 330ft/100m
**HIGHLIGHTS:** Explore Nash Wood's lovely mix of woodlands to reach the Burfa Vista. Enjoy the views over Radnor Forest and Hergest Ridge. A short cut is marked on the map in blue if you are pushed for time.

# Warren Wood

## Home of the Famous Waterfall

**Welcome to 'The Warren' which has been popular with tourists for over 200 years because of 'Water Break-its-neck', the spectacular waterfall. Named for its rabbit warren which once provided a source of food, this area has seen huge changes since the days Radnor Forest was an ancient hunting forest.**

In those days this was a large moorland area, but in Victorian times the then owners, the Harpton Court Estate, decided to create a 'picturesque' forest and planted lots of trees. You can see many of these trees, now huge, on the historic routes we have reopened for you to enjoy.

### How to find Warren Wood

The Natural Resources Wales (NRW) car park is just off the A44 Kington to Llandrindod Wells road. A mile after New Radnor turn right into a council car park (Brown tourist sign). Once off the road follow the NRW signage to the Warren car park (room for 8-10 cars).

### Waterfall Walk

This is a short walk from the car park to the Waterfall via a steep sided gorge with numerous species of ferns, mosses and lichens clinging to its sides. The damp atmosphere creates a microclimate. After a few days of rain the waterfall is a spectacular sight and you will need a full set of waterproofs to keep dry. It is easy to see why Victorian visitors to the area thought it such a special place.

### Water-break-it's-neck Trail

A short circular walk up to a viewing point which looks down across the spectacular Water Break-Its-Neck waterfall. From here go up and over the old stone arched footbridge with views down into the waterfall gorge.

### Warren Trail

Starting from the car park you will see some huge broadleaf and conifer trees planted during Victorian times, as well as the ornate stone arched foot bridges crossing the Black Brook in the valley bottom. Although not a long walk, it is not for the faint hearted as there are a few strenuous climbs into and out of the wooded valley.

### Waterfall Walk

Follow the waymarked signposts.
**TIME:** 20 minutes **DISTANCE:** ⅓ mile/0.5 km
**GRADE:** Easy, mainly level.
**HIGHLIGHTS:** A quick jaunt to the waterfall and back. Look out for the many species of ferns and mosses clinging to the steep sides the gorge.

### 'Water Break-its-neck' Trail

Follow the Blue waymarkers.
**TIME:** 45 minutes **DISTANCE:** ¾ mile/1km
**GRADE:** Moderate, 210ft/60m.
**HIGHLIGHTS:** A circular woodland walk leading you to a spectacular viewpoint over the falls.

### Warren Trail

Follow the Green waymarkers.
**TIME:** 1 hour **DISTANCE:** 1½ miles/2.3km
**GRADE:** Strenuous, 560ft/170m.
**HIGHLIGHTS:** See some of the largest trees in Radnorshire on this energetic ramble.